



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu  
Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi  
mewn Ardaloedd Gwledig  
The European Agricultural Fund for  
Rural Development: Europe Investing in  
Rural Areas



## Llais y Pentref Awst 2011 Copi Dyddiad ar gyfer Rhify Hydref – 1st Hydref 2011

### Beth sy' Mlaen yn y Pentref yn y misoedd nesaf

Awst 28 Dydd Sul 8.00 Noson Gwis Tafarn Nantcelynen, Bronwydd

Awst 29 Dydd Llun 11.00 Sioe C.Ff.I Cynwyl Elfed

Medi 5 Dydd Llun 7.30 – 9.30 Clwb Bowlio Llanpumsaint Neuadd Goffa

Medi 6 Nos Mawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Medi 12 Dydd Llun 5.00 – 7.00 Clwb Ieuentid Llanpumsaint a'r Cylch Neuadd Goffa

Medi 14 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio, Tafarn y Rheilffordd. Cysyllter â'r dafarn ar 01267 253643

Medi 17 Dydd Sadwrn 8.45 Cerddyd Barrog(Trefdraeth) i Bwllgwaelod yn Ninas

Medi 22 Dydd Iau 7.00 y.h. Noson Cwis a Chyri £5.00y pen Tafarn y Rheilffordd

Medi 25 Dydd Sul 8.00 y.h. Noson Gwis Tafarn Nantcelynen, Bronwydd

Medi 30 Dydd Gwener 10.30 Bore Coffi Macmillan Neuadd Goffa

Hydref 1 Nos Sadwrn 7.30 Agoriad or estynniad newydd gyda Arwyn Thomas Hanesydd, Neuadd Goffa

Hydref 4 Nos Mawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Hydref 7 Nos Gwener 8.00 Swper y Cynhaef Neuadd Goffa

Hydref 8 Dydd Sadwrn 11.00 Cerddydd Llanpumsaint - Nebo - Rheilffordd Gwili

Hydref 10 Nos Llun 7.00 Gwasanaeth Diolchgarwch Capel Nebo

Hydref 12 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio, Tafarn y Rheilffordd. Cysyllter â'r dafarn ar 01267 253643

Hydref 13 Nos Iau Sioe Ffaswn £5 tocyn Neuadd Goffa



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu  
Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi  
mewn Ardaloedd Gwledig  
The European Agricultural Fund for  
Rural Development: Europe Investing in  
Rural Areas



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

## Village Voice August 2011 Copy Date for October Edition 1<sup>st</sup> October

### What's On in the Village in the next few months

- 28 August Sunday 8.00 Quiz night at Hollybrook Pub Bronwydd
- 29 August Monday 11.00 Cynwyl Elfed YFC show
- 5 September Monday 7.30 – 9.30 Bowls Club in Memorial Hall
- 6 September Tuesday 8.00 Community Council in Memorial Hall
- 12 September Monday 5.00 – 7.00 Youth Club in Memorial Hall First meeting
- 14 September Wednesday 12.30 Luncheon Club – phone Railway 253643 to book
- 17 September Saturday 8.45 Walk from Parrog Newport – Pwllgwaelod Dinas Cross
- 22 September Thursday 7.00pm Curry and Quiz Railway Inn £5 per head
- 25 September Sunday 8.00pm Quiz at Hollybrook
- 30 September Friday 10.30 Macmillan Coffee Morning Memorial Hall
- 1 October Saturday 7.30 Opening of the new wing, with Arwyn Thomas, Memorial Hall
- 4 October Tuesday 8.00 Community Council in Memorial Hall
- 7 October Friday 8.00 Harvest Supper in Memorial Hall
- 8 October Saturday 11.00 Walk Llanpumsaint – Nebo – Gwili Railway
- 10 October Monday 7.00 Thansgiving Service Nebo Chapel
- 12 October Wednesday 12.30 Luncheon Club – phone Railway 253643 to book
- 13 October Thursday Fashion Show Memorial Hall Tickets £5
- 20 October Thursday 7.00pm Curry and Quiz Railway Inn £5 per head

21 October Friday 7.30 Bingo Nebo Vestry

29 October Saturday 7.30 Llanpumsaint and District Choir Concert Tabernacle Chapel Carmarthen

4 November Friday 7.30 Concert in Memorial Hall Tickets £7.50 Children free. Grand raffle.

26 November Saturday Murder Mystery Night, with 2 course meal, tickets £20 each

9 December Friday 7.30 Bingo, cash prizes, Memorial Hall

*Llanpumsaint and Ffynnon Henry Memorial Hall  
To book the hall, phone Arwel Nicholas on 01267 281365*

### **Cynwyl Elfed YFC Show Monday 29<sup>th</sup> August at 11.00am.**

The show will be held on 'Cae'r Sied' field, Panthwdog, Cynwyl Elfed. There are classes ranging from cattle, sheep, dogs, pets, farm produce, garden produce, flowers, floral art, cookery, dairy, preserves, handicrafts, rural crafts, wines and meads, childrens section and photography – full details in the schedules available at the shop.

The show queen and attendants will be judged at 11.00am on show day. Various stalls and activities will be present. Refreshments and a licensed bar will be in attendance.

Admission is £4 for adults, children under 16 £2, children under 12 are free. The evening entertainment is being organised by the young farmers – 'It's a knockout' will be held at 5.00pm, followed by Sumo wrestling. There will be a barbecue and hog roast.

For more information about the show, contact Teleri on 01267 281283, or Meinir on 01267 281549. If you are between the ages of 10 and 26 and would like more information about the young farmers contact Eleri on 07890 137325.

*Llanpumsaint School PTA  
Shop online and Raise Money*

[www.easyfundraising.org.uk/causes/llanpumsaintpta](http://www.easyfundraising.org.uk/causes/llanpumsaintpta)

*If you shop online, try the above unique web address first then shop as normal. It's an easy way to raise funds for Llanpumsaint Primary School. It's safe and doesn't cost you a penny more. There are lots of shops and special offers for you also. So far, nearly over £300 has been raised. We need as many shoppers as possible to join. It's easy!!*

Hydref 20 Dydd Iau 7.00 Noson Cwis a Chyri £5.00 y pen Tafarn y Rheilffordd

Hydref 21 Dydd Gwener 7.30 Bingo Nebo Festri

Hydref 29 Dydd Sadwrn 7.30 Cyngor Cymuned yng Nghapel y Tabernacl, Caaerfyrddin.

Tachwedd 4 Nos Wener 7.30 Cyngerdd £7.50 plant am ddim, gyda Raffle Fawr, Neuadd Goffa

Tachwedd 26 Nos Sadwrn, Noson o ddirgelwch, tocyn £20 gyda dwy cwrs o fwyd, Neuadd Goffa

Rhagfyr 9 Nos Wener 7.30 y. h. Bingo Gwobrau arian, Neuadd Goffa

*Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri  
I logi'r Neuadd Goffa, ffoniwch Arwel Nicholas ar 01267 281365*

### **Sioe C.Ff. I Cynwyl Elfed Dydd Llun 29ain Awst 11.00 yb.**

Bydd sioe ar 'gae'r sied' Panthwdog, Cynwyl Elfed. Mae yna amrywiaeth o ddsbarthiadau gan cennys gwartheg, defaid, cŵn, anifeiliaid anwes, cynnyrch fferm, cynnyrch ardd, blodau, coginio, cynnyrch llaeth, gwinoedd, adran y plant, preserves, handicrafts, a rural crafts. Mae rhaid bod yr uchod yn bresenol cyn 10.30yb.

Bydd y frenhines a'i dirprwyon yn cael ei beiriadu ar y diwrnod am 11.yb  
Fe fyddamrywiath o stondinae a weithgareddau ar gael ar y diwrnod. Bydd lluniaeth ar gael a bar trwyddedig.

Pris mynediad yw - £4, plant o dan 19 - £2, a plant o dan 12 – am ddim.

Bydd yr adloniant yn y nos yn nwylo'r ffermwyr ifanc. I ddechrau am 5 o'r gloch mae cystadleuaeth 'It's a Knockout' ac i ddilyn 'Sumo wrestling'. Bydd BBQ a 'hog roast' i gael.

Am ragor o wybodaetham y sioe cysylltwch â Teleri ar 01267 281283 neu Meinir ar 01267 281549. Os ydych rwnng 10 a 26 oed ac angen rhagor o wybodaeth an y fferwyr ifanc cysylltwch ag Eleri ar 07890 137325

### **Te Parti Marie Curie ar Fehefin 25 2011**

Er gwaethaf y glaw daeth llawer o fobl i'r Te Parti Enfawr. Gwerthwyd llawer o blanhigion a chacennau ac fe weiniwyd llawer o de a chacennau hefyd. O ganlyniad fe wnaed elw o dros £350 o bunnoedd tuag at yr achos teilwng hyn. Llawer o ddiolch i bawb a gefnogodd ac hefyd i bawb a gynorthwyodd ar y dydd.

*Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Llanpumsaint*

***Er sylw: Siopwyr ar-lein!***

[www.easyfundraising.org.uk/causes/llanpumsaintpta](http://www.easyfundraising.org.uk/causes/llanpumsaintpta)

*Os ydych chi'n siopa ar-lein, defnyddiwch y cyfeiriad gwe unigryw uchod i ymweld yn gyntaf â gwefan easyfundraising, cyn dechrau siopa yn ôl eich arfer. Mae'n ffordd hnylus o godi arian ar gyfer ysgol gynradd Llanpumsaint. Mae'n ddiogel ac nid yw'n costio'r un geiniog i chi. Mae yna lawer o siopau a chynigion arbennig hefyd. Codwyd >£300 hyd yn hyn. Mae angen gymaint o siopwyr â phosibl i ymuno. Rhwch gynnig arni – mae'n rhwydd!*

**Y Neuadd Goffa**

Mae'r trustess neuadd wedi trefnu cyfres lawn o ddigwyddiadau – weld **Beth sy' Mlaen**

Diwrnod Hwyl a Sbri.

Daeth llu o fobl i'r neuadd ar dydd Sadwrn 7fed o Fai i mwynhau diwrnod o hwyl a sbri. Cawsom lawer o stodinau diddorol i flas bob oedran. Te a chacennau wedi ei paratoi yn hyfryd.

Yn yr hwyr roedd disco, rasmus ceffylau un diddanu. A mochyn rostio blasus iawn. Diwrnod llwyddiannus iawn.

Apel Prynwch Fricsen

Pwrpas yr apel uchod i'w helpu i dalu am yr estyniad newydd ac y mae wedi bod yn lwyddiant mawr ac hyd yn hyn mae 90 wedi eu gwerthu.

Mae 82 ar hyn o bryd yn ymddangos yn yr estyniad newydd a disgwylir derbyn 8 bricsen arall unrhyw ddydd.

Y swm a anelwyd ato oedd 100, felly, os ydych yn bwriadu prynu bricsen nid yw yn rhy hwyr. Cysylltwch a Derick Lock ar 253524 cyn gynted ac sydd bosibl.

**Bore Coffi Macmillan – Medi 30 2011 am 10.30y.b.**

Fe fydd Bore Coffi yn cael ei gynnal yn y Neuadd Goffa ar y dyddiad uchod Bydd coffi, te a chacennau yno a gobeithiwn y gwnaiff pawb gefnogi yr achos teilwng hyn.

**Darpariaeth y Llyfrgell Symudol -- 3ydd dydd Gwener o bob mis**

**Dyma'r amserau:-**

Parc Celynin tua 10.30y.b. Swyddfa Bost tua 11.00y.b. Neuadd Goffa tua canol dydd.

Mae cerbyd yn llai yn ymweld a chartrefi sydd ar gyrion y pentref ar y 4ydd dydd Mercher o bob mis o 11.00y.b. tan 12.30y.p.. ac yn galw mewn gwahanol gartrefi a ffermydd ac yn enwedig gyda'r trigolion sydd yn gaeth i'w cartrefi.

Os ydych eisiau rhagor o wybodaeth cysylltwch a Gwasanaeth Llyfrgell Sir Gaerfyrddin ar 01267 224835.

## **Macmillan Coffee Morning – 30<sup>th</sup> September 10.30am**

We will be holding another coffee morning in aid of Macmillan Nurses in the Memorial Hall at 10.30am. There will be coffee, tea and cakes, and it would be good to see lots of people supporting this very worthwhile cause.

## **Memorial Hall**

The Memorial Hall trustees have planned a full calendar of events – see **what's on** for details.

## **Fun Day – 7<sup>th</sup> May**

A crowd of people attended the Fun day held in the hall. There were numerous different and interesting stalls for all ages. Tea was served with lovely home made cakes. The evening began with a disco followed by horse racing and a delicious roast pig. A successful day.

## **Memorial Hall Buy-A-Brick Campaign**

The Buy-a-Brick campaign to help finance the Hall extension works has been very successful and recently reached a total of 90 bricks sold. At present, 82 bricks are on show in the extension hallway with delivery of the other 8 expected any day.

We still hope to reach the magic 100 so if you are considering purchasing a brick it is still not too late. For further information contact Derick Lock on 253524.

## **Mobile Library Provision – 3<sup>rd</sup> Friday of each month**

Parc Celynin 10.30, Post Office 11.00am, Llanpumsaint Memorial Hall 12.00noon (times are approximate). A smaller van visits the outskirts of the village on the 4<sup>th</sup> Wednesday of every month from 11.00 – 12.30 with various stops at farms and for housebound readers. For more information contact Carmarthenshire Library Service on 01267 224835

## **Llanpumsaint and District Choir**

The Annual concert this year will be held on Saturday October 29 2011 at the Tabernacl Chapel in Carmarthen. The choir will perform the “Messiah” by G.F. Handel and the guest artists will be Angharad Morgan, Soprano, Rhian Williams, Mezzo Soprano, Robyn Lyn Evans, Tenor and Iwan Wyn Parry, Baritone. The organist as usual will be Mr Allan Fewster who will be supported by a String Quartet. The concert will commence at 7.30 p.m. and the proceeds this year will go to “Plant Sir Gar Appeal”.

## **Shop Mobility, Carmarthen**

A new Shopmobility scheme has been launched in Carmarthen. This much needed service provides solutions, to those with limited mobility, to make shopping easier and pleasanter. Equipment available for hire (see terms below) includes manual wheelchairs, powered wheelchairs and powered scooters. Two of the scooters are suitable for people with a larger frame. At least one days notice is usually required and training will be provided with a convenient waiting area for family/friends or carers. It's hoped to have one member of paid staff with the rest helping on a voluntary basis. The administrators of the scheme are greatly indebted to local organisations such as Rotary Clubs of Carmarthen and Tywi and the Roundtablers for assistance with funding. The office can be found, to the left of the exit, **before you enter the Shopping Centre**, on the ground floor of the Multi-Storey Car Park, Unit 14, St. Catherine's Walk SA31 1GA Carmarthen

01267 233 699, e-mail: [csc2011@btconnect.com](mailto:csc2011@btconnect.com)

Opening Times: Monday to Saturday 10 am – 3.45 pm

Charges:      All Day                      £4  
                  10am – 1pm                £3  
                  1pm – 3.45 pm               £2

## **Llanpumsaint & Nebo Bowling Club**

The Club's 2011/12 season commences on Monday 5<sup>th</sup> September and thereafter on each Wednesday and Monday in the Village Hall from 7.30pm to 9.30pm.

As mentioned in previous issues of Village Voice, new members are always welcome, whether you have played before or are a complete beginner.

Qualified coaches will be on hand to show you the ropes on short mat bowls. For any further information please contact our Chair, Malcolm Howells on 253207 or our Secretary, Derick Lock on 253524.

## **Marie Curie tea party on 25<sup>th</sup> June**

Despite the drizzle, lots of people came to the Marie Curie Blooming Great Tea Party. We sold lots of plants, served loads of tea and cakes and made over £350 for this worthwhile cause. Many thanks to all who came and to all our helpers.

## “Shop Mobility” Caerfyrddin

Mae cynllun newydd wedi cael ei lawnsio yng Nghaerfyrddin yn ddiweddar. Mae'r cynllun yma wedi datrys llawer o broblemau yn enwedig i rhai sydd a symudoledd cyfyngedig i'w cynorthwyo i wneud eu siopa yn hawddach ac yn fwy pleserus. Mae'r offer sydd ar gael i'w hurio (gweler isod y gost) yn cynnwys cadeiriau olwyn o bob math gan gynnwys sgwteru. Mae dau o rhain yn addas i bobl o bob maint. Mae eisiau o leiaf un dirwnod o rybudd os ydych eisiau archebu un achos mae yn ofynnol cael hyfforddiant ac hefyd fe fydd yna le cyfleus i ffrindiau, teulu neu ofalwyr i aros amdanoch.

Gobeithir cyflogi un person i wneud y gwaith ac fe fydd y lleill yn wirfoddolwyr. Mae gweinyddwyr y cynllun hwn yn ddiolchgar iawn i gymdeithasau lleol fel y Clwb Rotari ac hefyd aelodau o'r Bwrdd Crwn am eu cymorth parod.

Mae'r swyddfa gerllaw y Maes Parcio Aml-lawr sydd ar bwys Canolfan Siopa Santes Catrin yng Nghaerfyrddin. Gweler isod am y cyfeiriad, Uned 14, Canolfan Siopa Santes Catrin, Caerfyrddin, SA31 1GA

Ffôn:- 01267 233699 E-bost:- [csc2011@btconnect.com](mailto:csc2011@btconnect.com)

**Amserau Agor** Dydd Llun i ddydd Sadwrn 10 y bore tan 3.45 y prynhawn

<b>Cost:-</b> Drwy'r dydd	£4.00
10 y.b. tan 1 y.p.	£3.00
1 y.p. tan 3.45 y.p.	£2.00

## Clwb Bowlio Llanpumsaint a Nebo.

Mae'r tymor y clwb am 2011/12 yn dechrau nos Lun, Medi 5 2011 a wedyn pob nos Lun a nos Fercher yn y Neuadd Goffa o 7.30y.h. tan 9.30y.h.

Fel sydd wedi ei grybwyll yn flaenorol yn Llais y Pentref, mae croeso cynnes iawn i aelodau newydd i ymuno a ni. Does dim gwahaniaeth os nad ydych wedi chwarae o'r blaen fe fydd hyfforddwyr a chwareuwyr profiadol wrth law i'ch helpu

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch a'r Cadeirydd, Malcolm Howells ar 253207 neu a'r Ysgrifennydd Derick Lock ar 253524 os gwelwch yn dda.

## Baw Cwn a Sbwriel

Oeddech chi'n gwybod bod 194 o bobl wedi cael eu dirwyo am daflu sbwriel yn Sir Gaerfyrddin yn ystod 2010/11?

Cafodd 26 arall eu dirwyo am beidio â glanhau baw eu cŵn.

Swyddogion gorfodi amgylcheddol gyflwynodd yr hysbysiadau tâl cosb am £75, sy'n gostwng i £50 os cânt eu talu o fewn 10 niwrnod. Mae'r arian yn mynd yn ôl i gyllideb glanhau'r strydoedd er mwyn helpu i gadw'r sir yn lân.

Mae swyddogion gorfodi ar batrôl yn rheolaidd er mwyn helpu i wella'r amgylchedd i drigolion ac ymwelwyr.



## **Clwb Cerdded Llanpumsaint**

Ar ôl toriad dros yr haf mae dwy daith gyffrous wedi eu chynllunio ar gyfer yr Hydref.

Ar ddydd Sadwrn, Medi 17 2011 fe fyddwn yn mynd i gerdded ar hyd rhan o arfordir Sir Penfro sef o Barrog(Trefdraeth) i Bwllgwaelod yn Ninas. Mae hwn yn ran hardd iawn o lwybr yr arfordir gyda golygfeydd gwych. Mae'n bosibl gweld Gogledd Cymru ar ddiwrnod clir.

Er mwyn cerdded un ffordd yn unig fe fyddwn yn dal "Roced Poppit" o Bwllgwaelod i Barrog am 10.15 o'r gloch y bore ac yna cerdded ar hyd llwybr yr arfordir i Gwm yr Eglwys. Mae dau ddewis, i'r rhai egniol gallwch gerdded o amgylch Dinas a gall y lleill gymeryd taith yn fyrach drwy'r dyffryn i Bwllgwaelod. Fe fydd lluniaeth wedi ei baratoi mewn tafarn lleol cyn mynd adref.

Os y byddwch yn dod ar y daith hyn a fydddech mor garedig a chysylltu a Carolyn Smethurst ar 01267 253308 fel y gellir trefnu cludiant i Bwllgwaelod. Fe fydd yn ofynnol i adael Llanpumsaint am 8.30 o'r gloch y bore a wedyn fydd peth amser i eistedd ar y traeth yng Nghwmgwaelod i aros am "Roced Poppit".

Am 11.00 o'r gloch y bore ar Hydref 8 2011 fe fyddwn yn trefnu taith gerdded i Nebo, ac wedyn i lawr y llwybr cyhoeddus tuag at yr A484. Ar ôl cyrraedd Rheilffordd Gwili fe fyddwn yn cerdded yn ôl i Lanpumsaint ar hyd trac y rheilffordd. Dewch a bwyd gyda chi ac fe fyddwn yn aros am doriad byr yng Ngorsaf Danycoed. Fe fydd y daith yn dechrau o Coopers yn Llanpumsaint.

Mae croeso i bawb i ymuno a ni ar y teithiau hyn. R'ydydym yn glwb cymdeithasol iawn ac mae'r teithiau wedi eu cynllunio er mwyn i bawb fwynhau eu humain. Cysylltwch ag Carolyn Smethurst, [info@gwilimill.co.uk](mailto:info@gwilimill.co.uk), 01267253308

## **Côr Llanpumsaint a'r Cylch**

Fe fydd Cyngerdd Blynnyddol y côr eleni ar nos Sadwrn Hydref 29 2011 yng Nghapel y Tabernacl, Caaerfyrddin. Fe fydd y côr yn perfformio'r "Meseia" gan G.F. Handel a'r artisitaid gwadd fydd Angharad Morgan, Soprano, Rhian Williams Mezzo Soprano, Robyn Lynn Evans, Tenor a Iwan Wyn Parry, Bariton. Yr organydd fel arfer fydd Mr Allan Fewster ac fe fydd Pedwarawd Llinynnol yn cynorthwyo. Fe fydd y cyngerdd yn dechrau am 7.30 y.h. ac fe fydd yr elw eleni yn mynd tuag at "Apel Plant Sir Gar".

## **Clwb Cerdded Llanpumsaint Walkers Club**

After our summer break we have planned 2 great walks for the autumn.

On Saturday 17<sup>th</sup> September, we will be doing a walk along part of the Pembrokeshire Coast path from the Parrog at Newport to Pwllgwaelod Dinas Cross. This is a lovely section of the coast path, with good views up to north Wales on a clear day.

So that we only have to walk one way, we will catch the Poppit Rocket from Pwllgwaelod at 10.15 to the Parrog, then walk back along the coast path to Cwm-yr-Eglwys. There are 2 choices here, the more energetic can walk around Dinas Head, with the others taking the short level walk through the valley to Pwllgwaelod, to enjoy refreshments at the Sailors Pub before returning home. Let Carolyn Smethurst 01267 253308 know if you are coming on this walk so that we can share transport to Pwllgwaelod. We will need to leave Llanpumsaint at about 8.30am, we can sit on the beach at Pwllgwaelod and wait for the Poppit Rocket!

On October 8<sup>th</sup>, 11.00am, we will be doing a walk to Nebo, then down the public right of way towards the A484. When we reach the Gwili Railway we will walk back to Llanpumsaint along the railway track. Bring a packed lunch, and we will stop at Danycoed Station for a break. The walk will leave from outside Coopers.

Everyone is welcome to join us on these walks. We are a very sociable group, and our walks are planned to enjoy good company and conversation. Contact Carolyn for more details, [info@gwilimill.co.uk](mailto:info@gwilimill.co.uk) 01267253308

### **Welsh Lessons.**

Welsh lessons will recommence at Llanpumsaint School on Tuesday September 20 2011. This will be a continuation of last year's class which now will be "Foundation Standard."

There has been a rumour that there are some people in the village and the surrounding area interested in learning Welsh. If this is the case can you please contact Gwyn Nicholas on 01267 253686 or Llanpumsaint School on 01267 253446 as soon as possible. Unfortunately due to the financial situation there has to be at least 10 people in a class in order to get it up and running. Details of fees etc. is as per the Welsh Learners Schedule which you should have received by now through the letter boxes.

## **From our Neighbourhood Policing Team**

The Roads Policing Unit and the Neighbourhood Policing Team are continuing to monitor the speed in the village of Llanpumsaint.

RESIDENTS are being warned to make sure their summer is not ruined by thieves.

If you are going away, then make sure your home is secure to avoid becoming a victim of crime. Police say there has been a recent spate of thefts from empty properties including those with 'for sale' signs outside.

Community safety officer Constable Anthony George said: "Thieves are targeting copper boilers, pipes and central heating systems because the price of scrap metal is currently at a record high.

"We are advising owners to make sure their properties are secure and if possible, have a neighbour keep an eye on it for you. Think about fitting a battery operated alarm to the entrance area, or even a security light. Also make sure the water is turned off at the mains; some properties have suffered serious flooding damage after thieves removed the water pipes leaving water running out, sometimes for days."

**For further advice visit [www.dyfed-powys.police.uk](http://www.dyfed-powys.police.uk) or call 101 to speak to a crime prevention officer.**

**If you see any suspicious activity call 999 (if an incident is ongoing) or 101 in a non-emergency. You can also call Crimestoppers Wales anonymously on 0800 555 111.**

Bethan Hodgkinson, PCSO 8030. Tim Plismona Bro Abergwili a Chynwyl Elfed Gorsaf Heddlu Caerfyrddin 101 Est 25344

## **Reliable Handymen and Gardeners**

Carmarthenshire Trading Standards Service is reminding householders of its scheme to help them find reliable handypersons and gardeners.

The Handyperson and Gardener scheme is supported by the Community Safety Partnership, which is made up of representatives from the county council, police, fire service and other agencies. It is part of an initiative aimed at cracking down on rogue traders and cold callers and was prompted by a series of incidents in the Llanelli area where itinerant traders were targeting elderly and vulnerable people. The scheme allows householders to look at an approved list of handypersons and gardeners who charge a fair price for the job.

Trading Standards Officer Vivienne Jones said: "The scheme offers something for people who want a small job done. Reliability is the key."

The list of current scheme members can be found on [www.carmarthenshire.gov.uk](http://www.carmarthenshire.gov.uk) or by contacting 01267 234567

## **Gair gan ein Swyddog Heddlu Cymunedol**

Mae'r Heddlu ac Adran y Priffyrdd yn dal i fonitro y gorrryru drwy'r pentref. Mae preswylwyr yn cael eu rhybuddio ynghylch sicrhau nad yw eu gwyliau haf yn cael eu dinistrio gan ladron. Os ydych yn mynd i ffwrdd, sicrhewch fod eich cartref yn ddiogel er mwyn osgoi bod yn ddiodefwr trosedd.

Mae'r heddlu'n dweud bod nifer o achosion o ddwyn o dai gwag yn ddiweddar gan gynnwys y rheiny sydd ag arwydd 'ar werth' y tu allan. Dywedodd Anthony George, Swyddog Diogelwch Cymunedol: "Mae lladron yn targedu boeleri copr, pibellau a systemau gwres canolog gan fod pris metel sgrap yn uwch nag erioed. "Rydym yn cynghori perchnogion i sicrhau bod eu tai'n ddiogel ac os oes modd, gofyn i gymydog gadw llygad ar eich tŷ. Ystyriwch osod larwm batri wrth y fynedfa neu hyd yn oed olau diogelwch. Yn ogystal, sicrhewch fod y brif bibell ar gyfer y dŵr wedi cael ei chau; mae rhai tai wedi cael eu difrodi'n ddifrifol gan lifogydd ar ôl i ladron dynnu'r pibellau dŵr a gadael i'r dŵr lifo allan, a hynny am ddyddiau weithiau."

Unwaith eto diolch yn fawr am y croeso cynnes a gawsom yn ardal Llanpumsaint.

Bethan Hodgkinson, PCSO 8030, Tîm Plismona Bro Abergwili a Chynwyl Elfed  
Gorsaf Heddlu Caerfyrddin 101 Est 25344

**Os byddwch chi'n gweld unrhyw weithgaredd amheus, ffoniwch 999 (yn y fan a'r lle) neu ffoniwch 101 ar gyfer galwadau di-argyfwng. Hefyd, gallwch chi ffonio Tacle'r Tacle Cymru yn ddiennw (0800 555 111).**

## **Angen garddwr neu dasgmon**

Mae Gwasanaeth Safonau Masnach Sir Gaerfyrddin yn atgoffa preswylwyr am ei gynllun i'w helpu i ddod o hyd i dasgmyn a garddwyr dibynadwy.

Mae'r cynllun Tasgmyn a Garddwyr yn cael cefnogaeth y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r cyngor sir, yr heddlu, y gwasanaeth tân ac asiantaethau eraill. Mae'n rhan o fenter sydd â'r nod o gwtogi'n fawr ar gyfleoedd masnachwyr twyllodrus a masnachwyr sy'n galw heb wahoddiad. Ysgogwyd y fenter gan gyfres o ddigwyddiadau yn ardal Llanelli lle bu masnachwyr teithiol yn targedu'r henoed a phobl fregus.

Mae'r cynllun yn caniatáu i breswylwyr edrych ar restr gymeradwy o dasgmyn a garddwyr sy'n codi pris teg am eu gwaith.

Dywedodd Vivienne Jones, Swyddog Safonau Masnach: "Mae gan y cynllun rywbeth i'w gynnig i bobl sydd â thasg fach i'w gwneud. Cael rhywun dibynadwy yw'r peth hanfodol."

Gellir dod o hyd i'r rhestr o aelodau presennol y cynllun ar [www.sirgar.gov.uk](http://www.sirgar.gov.uk) neu drwy ffonio 01267 234567.

## Eglwys Llanpumsaint

Gwelir manylion am wasanaethau eglwysi Llanpumsaint, Llanllawddog a Chelynin ar yr hysbysfyrddau'r priodol.

Medi 4 2011	8.00 y.b.	Cymun Sanctaidd	6.30 y.h.	Gwasanaeth Hwyrrol
Medi 11 2011	11.00 y.b.	Cymundeb Ddwyeithog		
Medi 18 2011	8.00 y.b.	Cymun Sanctaidd		
Medi 25 2011	11.00 y.b.	Cymundeb Teuluol ac Adnewyddu Addunedau Priodas		
Hydref 2 2011	8.00 y.b.	Cymun Sanctaidd	6.30 y.h.	Gwasaneth Hwyrrol
Hydref 7 2011	7.00 y.h.	Cwrdd Diolchgarwch a Swper y Pregethwr Gwadd:		Cynhaef i ddilyn. Parch Victoria Ashley
Hydref 9 2011	11.00 y.b.	Cymundeb Ddwyeithog		
Hydref 16 2011	8.00 y.b.	Cymun Sanctaidd		
Hydref 23 2011	11.00 y.b.	Cymundeb Teuluol		
Hydref 30 2011	10.00 y.b.	Gwasanaeth i'r 3 Eglwys yn Llanllawddog		

## Neges oddiwrth Offeiriad y Plwyf.

Ar hyn o bryd yr ydyn ni yn ar y Suliau yn dadansoddi Gweddi'r Arglwydd. Yr ydyn yn dweud y weddi yma bob dydd Sul ond y mae yn fendithiol iawn i ddarganfod dyfnder ystyr y weddi a ddysgodd Iesu Grist i'w ddisgyblion. Yn ystod yr wythnosau sydd i ddod fe fyddwn yn dadansoddi dwyfoldeb Duw, realiti ei Deyrnas, sut bydd ei ewylllys yn cael ei gario allan ar y ddaear fel ac y mae yn y nefoedd ac hefyd sut y bydd hyn yn gallu cwrdd a'n dibenion ni. Os nad ydyw arferiad gennyh fynd i addoli ar y Sul ond hoffech ddysgu sut i weddio a sut mae'r weddi hon yn datblygu ein perthynas ni a Duw, mae croeso i chi ymuno a ni yn ein gwasanaethau ar y Sul ac fe allaf eich sicrhau y cewch groeso cynnes ac hefyd dadansoddiad o ewylllys Duw ar eich bywyd.

Bendith Duw fo arnoch, Peter.

## Cyngor Bro Llanpumsaint

Mae'r Cyngor Cymuned yn cyfarfod ar nos Fawrth gyntaf ym mhob mis ( ac eithrio misoedd Rhagfyr ac Awst) am 8 yr hwyr yn y Neuadd Goffa ac mae pob cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fedi 6 2011 pan fydd y Cyngor yn trafod Polisi y Cyngor Sir ynglyn a chau Toiledau Cyhoeddus yn y pentref.

Mae cofnodion pob pwyllgor i weld ar wefan y pentref sef [www.llanpumsaint.org](http://www.llanpumsaint.org).

**Kathleen Morris** yw clerc y Cyngor Cymuned a gellir cysylltu â hi ar [kathleenmorris@btinternet.com](mailto:kathleenmorris@btinternet.com) neu (01267) 253583

## **Llanpumsaint Church**

Dates for services in Llanpumsaint Church for September and October:

Sun 4 Sept 8am Holy Communion 6.30 pm Evening worship

Sun 11 Sept 11am Bilingual communion

**Sun 18 Sept 8am Holy Communion**

Sun 25 Sept 11 am Family Communion with Renewal of Marriage vows

Sun 2 Oct 8 am Holy Communion 6.30pm Evening worship

